CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Cynulleidfaoedd Newydd 1 / New Audiences 1

## Prosiectau a Gefnogwyd yn / Projects Supported in 2022–2023

Band A – hyd at/up to £2,500

Band B – £2,501–£15,000

Band C – £15,001–£40,000

Cyngor Llyfrau Cymru / Books Council of Wales
Castell Brychan Aberystwyth Ceredigion SY23 2JB
01970 624 151 llyfrau.cymru

## Band A – hyd at/up to £2,500

**Lysh**

Bydd y cylchgrawn *Lysh* yn lansio cystadleuaeth ysgrifennu i groesawu pobl o liw fel cyfranwyr newydd, a bydd hefyd yn gwahodd lleisiau ifanc newydd i ddatblygu eu cynnwys fideo materion cyfoes.

*Lysh* magazine will launch a writing competition to welcome people of colour as new contributors, and will also invite emerging young voices to develop their current affairs video content.

**Mymuna Soleman**

Mae Mymuna yn berson creadigol o gefndir Somali-Gymreig sy'n angerddol am bopeth yn ymwneud â chydraddoldeb, tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, ac mae hi'n mynegi ei hun a'i phrofiadau byw ar lafar. Hi yw sylfaenydd y Privilege Café, a thrwy'r prosiect hwn mae'n anelu at ddatblygu ei sgiliau ysgrifennu a chreu hafan ddiogel i ferched o liw fel bod modd iddynt ysgrifennu, tyfu a ffynnu yn sector y Celfyddydau Creadigol.

Mymuna is a Somali-Welsh creative passionate about all things equality, equity, diversity and inclusion and best expresses herself and her lived experiences through Spoken Word. She is the founder of the Privilege Café, and through this project she aims to develop her writing skills and to create a safe space for women of colour to write, grow and thrive in the Creative Arts sector.

**Pontio/Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru**

Bydd yr awdur Casia Wiliam a Jac Jones yr artist yn gweithio gyda theuluoedd o Gymdeithas Affrica Gogledd Cymru, ochr yn ochr â sesiynau i'w cynnal gyda storïwyr a cherddorion o Gymru ac Affrica, i greu llyfr plant. Bydd y teuluoedd wedyn yn derbyn copi o'r llyfr hwn fel rhodd i'w gadw a'i fwynhau gartref gyda'i gilydd.

Writer Casia Wiliam and artist Jac Jones will work with families from the North Wales Africa Society, alongside sessions to be held with Welsh and African storytellers and musicians, to create a children's book, which families will then receive as a gift to keep and enjoy at home together.

## Band B – £2,501–£15,000

### Atebol

Nod prosiect Atebol yw cryfhau a chynyddu amrywiaeth yn y diwydiant cyhoeddi Cymraeg ar gyfer oedolion. Gyda'r cyllid hwn byddant yn cyflogi golygydd i sefydlu rhaglen gyhoeddi gyda phwyslais ar ddatblygu awduron o gefndiroedd amrywiol.

The aim of Atebol's project is to strengthen and increase diversity in Welsh publishing in writing for adults. With this funding they will employ an editor to establish a publishing programme with an emphasis on developing authors from diverse backgrounds.

### Broken Sleep Books

Bydd Broken Sleep Books yn sefydlu gŵyl lenyddol flynyddol i'w chynnal yn Nhalgarreg dros dri diwrnod i groesawu awduron a chanddynt wahaniaethau o ran dosbarth, hil, rhywioldeb ac anabledd i ddarllen, cyflwyno a rhyngweithio gyda'r mynychwyr.

Broken Sleep Books will establish an annual 3-day literary festival in Talgarreg welcoming authors with differences in class, race, sexuality and disability to read, present and interact with attendees.

### Graffeg

Nod cynnig Graffeg am gylchgrawn digidol sy'n hwyluso mynediad at gyhoeddi yw mynd i'r afael â thangynrychiolaeth anabledd mewn llenyddiaeth a goresgyn rhwystrau i weithio fel awdur neu ddylunydd anabl.

Graffeg's proposal for a digital magazine facilitating access to publishing aims to address the underrepresentation of disability in literature and overcome barriers to working as a disabled writer or illustrator.

### Hanin Abou Salem

Bydd Hanin Abou Salem yn datblygu sgiliau creadigol deg o ffoaduriaid yng Nghymru drwy raglen ysgrifennu wedi'i thargedu'n benodol i ddatblygu a pharatoi eu deunyddiau llenyddol ar gyfer eu cyhoeddi.

Hanin Abou Salem will develop the creative skills of ten refugees in Wales through a targeted writing programme that will develop and prepare their literary outputs for publication.

### Honno

Bydd Honno'n cefnogi dwy fenyw o gefndir Affricanaidd neu Asiaidd i greu blodeugerdd ffeithiol o brofiadau menywod a merched o'r cefndiroedd hynny o fyw yng Nghymru.

Honno will support two women from African or Asian backgrounds to create a non-fiction anthology of the experiences of women and girls from those backgrounds of living in Wales.

### Just Another Poet

Bwriad Taz Rahman yw cynyddu'r diddordeb mewn llenyddiaeth a barddoniaeth o Gymru ymhlith cynulleidfaoedd ifanc ac amrywiol drwy gyfrwng ei sianel YouTube, Just Another Poet. Gyda'r arian hwn, bydd Taz yn ehangu cwmpas rhaglennu ac yn cyflwyno elfennau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar dalent lenyddol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, yn ogystal â thynnu sylw at bwysigrwydd siopau llyfrau a llyfrgelloedd i'r diwylliant llenyddol. Gyda'r cyllid grant, bydd Taz yn targedu cynulleidfa newydd ac amrywiol sy'n defnyddio dyfeisiau digidol symudol, ac yn gwneud defnydd o sianeli cyfryngau cymdeithasol i ehangu cwmpas diddordeb mewn barddoniaeth a llenyddiaeth yng Nghymru, yn ogystal â chynyddu amlygrwydd awduron o Gymru.

Taz Rahman aims to improve interest in literature and poetry from Wales among young and diverse audiences through his YouTube channel, Just Another Poet. With the funding, Taz will widen the scope of programming, introducing additional segments focusing on emerging literary talent in Wales as well as highlighting the importance of bookshops and libraries to the literary culture. Taz will target new and diverse mobile device audiences in Wales, to broaden the scope of interest in poetry and literature and increase the visibility of Welsh writers.

### Modron/Kristian Evans

Modron fydd y cylchgrawn llenyddol Cymraeg cyntaf ar yr argyfwng hinsawdd. Bydd i'w gael fel cylchgrawn ar-lein, a'i nod yw sefydlu golygydd o gefndir ethnig amrywiol.

Modron will be the first Welsh literary magazine on the climate crisis. It will run as an online magazine and aims to establish an editor from an ethnically diverse background.

**Gwasg y Bwthyn (Y Delyn Aur gan/by Malachy Edwards)**

Bydd Gwasg y Bwthyn yn golygu a chyhoeddi llyfr gan Malachy Edwards o'r enw *Y Delyn Aur*, sef darn o waith ffeithiol greadigol a fydd yn trafod themâu amrywiol sy'n ymwneud â hunaniaeth wrth i Malachy drafod ei sefyllfa fel Cymro Cymraeg o dras ethnig gymysg, sef gwyn a du Caribïaidd. Bydd y llyfr hefyd yn cynnig golwg ffres a safbwynt newydd i ddarllenwyr llenyddiaeth Gymraeg. Hwn fydd y llyfr Cymraeg cyntaf wedi'i ysgrifennu gan awdur o gefndir lleiafrif ethnig.

Gwasg y Bwthyn will edit and publish a book titled *Y Delyn Aur* by Malachy Edwards, a piece of creative non-fiction which explores various themes surrounding identity, which will provide a new insight and fresh perspectives for readers of Welsh literature. Malachy discusses his situation and emotions as a Welsh-speaking person from a mixed ethnic background – white and black Caribbean. This will be the first Welsh-language book written by an author from a minority ethnic background.

**Be-excellence**

Bydd Be-excellence yn ariannu *Xcellence Magazine*, gyda'r bwriad o greu cylchgrawn sydd yn cynrychioli pob cymuned leiafrifol yng Nghymru a darparu addysg, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gadarnhaol i gynulleidfaoedd ehangach.

Be-excellence will fund *Xcellence Magazine*, aiming to create a magazine that represents all minority communities in Wales and to provide positive education, knowledge and awareness to wider audiences.

**Atebol & Graffeg**

Mewn partneriaeth â'i gilydd, bydd Atebol a Graffeg yn creu llwyfan digidol cynhwysfawr yng Nghymru, i gefnogi disgyblion, athrawon a rhieni. Bydd y cam cyntaf yn ymchwilio i ddichonoldeb y prosiect. Bydd y llwyfan arloesol hwn yn darparu ystod eang o gynnwys ar gyfer plant, i ddysgu ac i fwynhau darllen.

Atebol and Graffeg, in a joint venture partnership, will create a comprehensive Wales-based digital platform to support pupils, teachers and parents in Wales. The first stage will investigate the feasibility of the project. This innovative platform will provide a broad range of content for children to learn and enjoy reading.

**Y Cymro**

Bydd *Y Cymro* yn rhoi cyfleoedd newyddiadurol traddodiadol a digidol i fyfyrwyr ysgol a phrifysgol na fyddent yn cael cyfleoedd tebyg fel arall.

*Y Cymro* aims to give both traditional and digital journalism experiences to school pupils and university students who otherwise would not receive such opportunities.

**Aderyn Press & International Dylan Thomas Prize**

Bydd Aderyn Press ar y cyd â'r International Dylan Thomas Prize yn cyflwyno dwy gyfres o chwe gweithdy 'blasu', a fydd yn cysylltu'n uniongyrchol â chymunedau anoddach eu cyrraedd, yn benodol menywod dosbarth gweithiol sydd wedi'u lleoli yn nhrefi'r cymoedd, a allai fod wedi profi caledi. Eu nod yw annog y genhedlaeth nesaf o weithwyr yn y byd cyhoeddi drwy chwalu unrhyw ddirgelwch ynglŷn â'r diwydiant cyhoeddi a chynnig profiad ymarferol drwy brosiect cyhoeddi ar y cyd.

Aderyn Press and the International Dylan Thomas Prize will jointly deliver two series of six 'taster' workshops which will connect directly with harder-to-reach communities, specifically working-class women based in valleys towns who may have experienced hardship. They aim to encourage the next generation of publishing professionals by demystifying the industry and offering hands-on experience via a shared publishing project.

**Pontio: Prosiect Monologau Bangor**

Bydd Pontio yn cynnal cyfres o sesiynau mentora dan arweiniad dau fentor, gyda hyd at wyth unigolyn o gefndiroedd gwahanol ym Mangor. Byddant yn cyhoeddi cyfrol o fonologau o'r sesiynau mentora, a fydd yn cynrychioli trawstoriad o leisiau Bangor.

Pontio will host a series of mentoring sessions by two experienced mentors with up to eight individuals from different backgrounds in Bangor. They will publish a volume of monologues from the mentoring sessions that represent a cross-section of Bangor voices.

**Cyhoeddi Cymru/Publishing Wales**

Bydd Cyhoeddi Cymru yn cyflawni prosiect 'Mapio a Chyflwyno', er mwyn gallu cyfeirio unigolion a sefydliadau at y wybodaeth ddiweddaraf am y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Byddant yn annog ac yn amlygu llwybrau tuag at gyhoeddi yng Nghymru ac yn ei wneud yn glir fod croeso i unigolion o bob cefndir gysylltu â'r cyhoeddwyr.

Publishing Wales will carry out a 'Mapping and Delivery' project, in order to direct individuals and organisations to the latest information about the publishing industry in Wales. They will encourage and highlight pathways towards publishing in Wales and make it clear that individuals from all backgrounds are welcome to contact the publishers.

## Band C – £15,001–£40,000

**Lucent Dreaming**

Lucent Dreaming fydd y cwmni cyhoeddi llyfrau a chylchgronau cyntaf i fod dan arweiniad ac yn cyflogi dau olygydd amser llawn o liw i gael ei ariannu yng Nghymru. Ei nod yw cynnig llwyfan i awduron newydd ac egin-awduron, a meithrin golygyddion newydd a gweithwyr cyhoeddi proffesiynol o gefndiroedd a dangynrychiolir yng Nghymru.

Lucent Dreaming will be Wales' first funded book and magazine publisher led by and employing two full-time editors of colour. It aims to platform new and emerging writers and foster new editors and publishing professionals from underrepresented backgrounds in Wales.

**LUMIN Press**

Bydd LUMIN Press yn parhau ac ehangu eu gwaith o ddatblygu arfer cyhoeddi sy'n blaenoriaethu cydweithio, cyfeillgarwch a chefnogaeth deg hirdymor wrth weithio gydag awduron ac artistiaid o liw. Mae LUMIN yn ymwneud â gofal, cydweithredu a ffyrdd o weithio y tu hwnt i rwystrau strwythurol.

LUMIN Press will continue and expand their work developing a publishing practice that prioritises collaboration, friendship and long-term equitable support when working with writers and artists of colour. LUMIN is concerned with care, cooperation and ways of working beyond structural barriers.

**Seren & Inclusive Journalism Cymru**

Bydd Seren ac Inclusive Journalism Cymru yn cyhoeddi casgliad clawr meddal o 10 ysgrif newydd wedi'u hysgrifennu gan aelodau o IJC, o'r enw *Cymru and I*. Bydd yr ysgrifau'n trafod y Gymru gyfoes, o safbwynt cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.

Seren and Inclusive Journalism Cymru will publish a paperback collection of 10 new essays written by members of IJC, titled *Cymru and I*. The essays will shed light on contemporary Wales, from the perspective of underrepresented communities.

**IWA**

Bydd IWA yn darparu cyfres o interniaethau ‘Golygyddion Newydd’ er mwyn buddsoddi yn sgiliau’r genhedlaeth nesaf o awduron a golygyddion newyddiadurol. Byddant yn cyflogi pedwar intern, gan gynnwys dau siaradwr Cymraeg, ac yn darparu rhaglen hyfforddi bwrpasol ar gyfer pob ‘Golygydd Newydd’ i ddatblygu sgiliau ym mhob agwedd o newyddiaduraeth, gan ganiatáu rhywfaint o arbenigedd.

IWA will deliver a series of ‘New Editors’ internships to invest in the skills of Wales’ next generation of journalistic writers and editors. They will take on four interns, including two Welsh speakers, delivering a bespoke training programme for each ‘New Editor’ to develop skills in all aspects of journalism while allowing for some specialisation.

**Firefly (Cyflogi/Employment)**

Mae Firefly wedi cyflogi Lucy Mohan fel Cynorthwyydd Golygyddol newydd, a fydd yn gweithio 2 ddiwrnod yr wythnos am 2 flynedd ar bob prosiect ar eu rhestr, gan ffocysu’n benodol ar helpu Firefly i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol. Mae Lucy o dras Gymreig ac Indiaidd, ac fel rhywun sy’n newydd i’r byd cyhoeddi bydd hi’n derbyn mentora a hyfforddiant fel y bo’n briodol.

Firefly have employed Lucy Mohan as a new Editorial Assistant, who will work 2 days a week for 2 years on all projects across the list, with a particular focus on helping Firefly reach new and diverse audiences. Lucy is of Welsh and Indian descent, and as a new entry to publishing she will receive mentoring and training as appropriate.

**Firefly & Lucent Dreaming (Awduron/Authors)**

Mae Firefly a Lucent Dreaming yn defnyddio’r arian i dalu blaendaliadau awduron, er mwyn denu awduron newydd ac amrywiol o Gymru. Bydd y llyfrau a gynhyrchir yn rhan o’u cyfres o ffuglen gyfoes o Gymru i blant.

Firefly and Lucent Dreaming are using the funding to pay author advances to attract new and diverse authors from Wales. The resulting books will be part of their series of contemporary children’s fiction from Wales.

### *Nation.Cymru*

Bydd *Nation.Cymru* yn ariannu'r Rhaglen Datblygu Talent, er mwyn datblygu talent newydd o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol ar draws Cymru, gan gynnwys newyddiadurwyr ac awduron sy'n siarad Cymraeg. Eu nod yw gweithio gyda hyd at 50 o awduron o grwpiau gwahanol a'u datblygu dros y flwyddyn nesaf.

*Nation.Cymru* will fund the Talent Development Programme, to develop new and emerging talent from underrepresented communities across Wales, including Welsh-speaking journalists and writers. They aim to work with and develop up to 50 writers from different groups in the next year.

### BAME Mental Health Support, Mind Cymru, & Cyhoeddi Cymru/Publishing Wales

Bydd BAME Mental Health Support yn gweithio mewn partneriaeth gyda Mind Cymru a Chyhoeddi Cymru er mwyn ariannu'r Prosiect Datblygu Awduron o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Bydd y prosiect yn cefnogi awduron newydd i ddatblygu eu gwaith creadigol a'u gyrfaoedd yn broffesiynol trwy fentora, gweithdai, sesiynau preswyl, hyfforddiant a chyhoeddiadau.

BAME Mental Health Support will work in partnership with Mind Cymru and Publishing Wales to fund the Writer Development Project for Ethnic Minorities in Wales. This project will support ethnic minorities in Wales to professionally advance their creative work and careers through mentoring, workshops, residentials, training and publications.

### Cylchgronau/Magazines

Derbyniodd 11 o gylchgronau nawdd penodol i gomisiynu ac i dreulio amser yn mentora awduron newydd o gefndiroedd sydd, yn draddodiadol, wedi eu tangynrychioli yn eu cyhoeddiadau.

11 magazines received funding specifically to commission work from and to spend time mentoring new authors from backgrounds traditionally underrepresented in their publications.

### Marchnata llyfrau Cymraeg i oedolion/Marketing Welsh-language books to adults

Derbyniodd dwy wasg arian i ddatblygu eu gwaith yn marchnata llyfrau Cymraeg i oedolion, gyda golwg ar gryfhau eu darpariaeth yn y tymor hir a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Two publishers received money to develop the marketing of Welsh-language books to adults, with the aim of strengthening their provision in the long term and reaching new audiences.

**Llyfrau Llafar / Audiobooks**

Derbyniodd tri chyhoeddwr arian i gyhoeddi llyfrau llafar o'r gyfres *Amdani* (cyfres o lyfrau i ddysgwyr Cymraeg ar bob lefel). Dros y pum mlynedd diwethaf cyhoeddwyd 40 yn y gyfres ac mae'r cyfan bellach ar gael fel llyfrau, e-lyfrau, a diolch i'r gronfa hon, fel llyfrau llafar yn ogystal.

Three publishers received funding to publish audiobooks of the *Amdani* series (a series of books aimed at Welsh-language learners). Over the past five years, 40 have been published in the series and they are all now available as books, e-books, and thanks to this fund, as audiobooks as well.